# Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy 2018

Wedi ei baratoi gan y tîm Polisi Dŵr a Gweithredu Cyfarwyddebau, Cyfoeth Naturiol Cymru

Fersiwn 1

## Cynnwys


| Rhif Adran | Adran | Rhif/au tudalen |
|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyniad**<br>• Ffurfio Hafren Dyfrdwy | 3 |
| 2 | **Prif negeseuon perfformiad** | 3 |
| 3 | **Methodoleg**<br>• Y fethodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd gennym<br>• Adroddiadau'r dyfodol | 4 |
| 4 | **Digwyddiadau llygredd** | 5-6 |
| 5 | **Digwyddiadau hunan-adrodd** | 7 |
| 6 | **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr**<br>• Gweithfeydd trin dŵr<br>• Gweithfeydd trin carthion<br>• Llif | 8-9 |
| 7 | **Adnoddau dŵr**<br>• Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr<br>• Diogelwch Indecs Cyflenwi<br>• Cynllunio ar gyfer sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr<br>• Gollyngiadau a defnyddio dŵr | 10 |
| 8 | **Mathau eraill o waith rheoleiddio**<br>• Gorfodi<br>• Cyflawni Rhaglen Genedlaethol yr Amgylchedd fel rhan o Raglen Rheoli Asedau<br>• Defnyddio a gwaredu llaid<br>• Cronfeydd Dŵr<br>• Rheoli perygl llifogydd | 11-12 |
| 9 | **Disgwyliadau o ran perfformiad ar gyfer 2019** | 12 |

# 1. Cyflwyniad

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ein holl waith. Golyga hyn ein bod yn gofalu am aer, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella llesiant Cymru, a rhoi dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr i leihau effaith eu hasedau a'u gweithgareddau ar yr amgylchedd. Gwnawn hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau o lygredd, cydymffurfio â thrwyddedau a chyflawni cynlluniau gwella amgylcheddol. Yna byddwn yn cyhoeddi asesiad blynyddol o'u perfformiad.

Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn asesu perfformiad cwmnïau dŵr a charthion sy'n gweithredu yng Nghymru er mwyn rhoi darlun o'r ffordd y mae cwmnïau yn cyflawni yn erbyn targedau mesuradwy amrywiol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol Hafren Dyfrdwy[1] ar gyfer 2018.

Rydym hefyd yn asesu perfformiad Dŵr Cymru a gallwch ddod o hyd iddo ar ein gwefan.

### Ffurfio Hafren Dyfrdwy

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018, gan ffurfio cwmni dŵr a charthion sy'n gyfan gwbl o fewn ffin wleidyddol Cymru. Mae'r holl [2] asedau a oedd yn berchen i Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yng Nghymru yn flaenorol ac yn cael eu rheoli ganddynt wedi cael eu trosglwyddo i Hafren Dyfrdwy.

# 2. Prif negeseuon perfformiad

Yn 2018 fe wnaeth Hafren Dyfrdwy:

- Barhau i berfformio'n dda o ran lleihau cyfraddau llygredd;
- Mynd ati i hunan-adrodd am 100% o ddigwyddiadau llygredd i ni;
- cydymffurfio 100% ag amodau eu trwyddedau rhifol.

O gofio'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â ffurfio cwmni newydd, mae'n arbennig o galonogol bod Hafren Dyfrdwy wedi gallu parhau i ganolbwyntio ar gynnal ei asedau a chydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol yn ystod 2018.

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn ystyried y data'n fanylach.

---

[1] Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: HAFREN DYFRDWY CYFYNGEDIG, Rhif Cwmni 0352762, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Packsaddle Ffordd Wrecsam, Rhostyllen, Wrecsam, Clwyd, LL14 4EH.

[2] Yr unig eithriad yw Gweithfeydd Trin Dŵr Cwm Elan a fydd, er ei fod yng Nghymru, o dan berchnogaeth a rheolaeth Severn Trent Water. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio'r safle hwn ac yn darparu data ar eu perfformiad amgylcheddol i Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gellir ei gynnwys yn adroddiadau Severn Trent Water.

# 3. Methodoleg

## Methodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd

Cynhelir adroddiadau ar berfformiad cwmnïau dŵr yn flynyddol ar sail calendr y flwyddyn. Fodd bynnag, ffurfiwyd Hafren Dyfrdwy hanner ffordd drwy'r cyfnod adrodd (1 Gorffennaf 2018). Er mwyn parhau i adrodd yn ôl y drefn honno, ac er mwyn helpu gyda chymariaethau o un flwyddyn i'r llall, rydym wedi llunio'r adroddiad hwn gan ddefnyddio cyfuniad o ddata Hafren Dyfrdwy a data cyfatebol gan Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy o'r ardal y mae Hafren Dyfrdwy yn weithredol ynddi ac yn gyfrifol amdani. Gweler y tabl isod am ragor o wybodaeth:

| Ffynhonnell data yn yr adroddiad hwn | 2015, 2016 a 2017 | 2018 | |
|---|---|---|---|
| | | 1/1/18 - 30/6/18 | 1/7/18 - 31/12/18 |
| Data digwyddiadau a data hunan-adrodd | Cyfuniad o ddata gan:<br>✓ Severn Trent Water yng Nghymru<br>✓ Dŵr Dyffryn Dyfrdwy | Cyfuniad o ddata gan:<br>✓ Severn Trent Water yng Nghymru<br>✓ Dŵr Dyffryn Dyfrdwy | Cyfuniad o ddata gan:<br>✓ Severn Trent Water yng Nghymru<br>✓ Dŵr Dyffryn Dyfrdwy[3]<br>✓ Hafren Dyfrdwy |
| Data cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr | | | |
| Data cydymffurfio â thrwyddedau Adnoddau Dŵr | | | |
| | | *Defnyddiwyd gyda'i gilydd yn yr adroddiad hwn ar gyfer data 2018* | |

*Tabl 1: egluro ffynonellau data gwahanol y cwmnïau dŵr a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn gan i Hafren Dyfrdwy gael ei ffurfio hanner ffordd drwy 2018*

Ar gyfer y 10 cwmni dŵr a charthion mwyaf yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnwys Dŵr Cymru, rydym yn defnyddio dangosyddion a methodoleg Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol (EPA) a gytunwyd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Golyga hyn y gallwn adrodd a meincnodi perfformiad Dŵr Cymru'n gyson yn erbyn gweddill y cwmnïau dŵr a charthion yng Nghymru a Lloegr.

Er na fyddwn yn adrodd yn llawn ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion EPA ar gyfer Hafren Dyfrdwy yn yr adroddiad hwn, byddwn yn defnyddio themâu tebyg, er enghraifft digwyddiadau llygredd a lefelau cydymffurfio â thrwyddedau. Byddwn yn ystyried hefyd y ffordd y mae perfformiad yn ystod 2018 yn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gan ddefnyddio data o'r un ardal y mae Hafren Dyfrdwy yn weithredol ynddi ac yn gyfrifol amdani (gweler Tabl 1 uchod am ragor o fanylion).

## Adroddiadau'r dyfodol

Ar hyn o bryd, rydym yn cydweithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd i adolygu metrigau EPA ar gyfer 2020 a thu hwnt. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried y dewisiadau ar gyfer yr holl gwmnïau dŵr a charthion yng Nghymru a Lloegr - mawr a bach.

Bydd unrhyw newidiadau i'r ffordd rydym yn asesu Hafren Dyfrdwy yn cael eu defnyddio yn 2021, pan fyddwn yn adrodd ar berfformiad y cwmni ar gyfer 2020.

[3] Gan fod trosglwyddiadau/amrywiadau ar gyfer trwyddedau wedi'u cwblhau ar ôl 1 Gorffennaf 2018, rydym yn cynnwys y tri chwmni er mwyn sicrhau bod pob digwyddiad a phob achos o beidio â chydymffurfio â thrwyddedau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.

# 4. Digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddiwr, rydym yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, ac mae rhai ohonynt o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt mewn ymdrech barhaus i ostwng nifer cyffredinol y digwyddiadau llygredd. Y nod yw gostwng nifer y digwyddiadau i sero.

Yn 2018 gwelsom y nifer lleiaf o ddigwyddiadau llygredd Categori 1-3 yn yr ardal y mae Hafren Dyfrdwy yn weithredol ynddi ac yn ei rheoli - chwech yn unig. Cafodd y chwe achos effaith Categori 3 (Isel) ar yr amgylchedd. Roedd pedwar yn gysylltiedig â dŵr gwastraff (carthion) ac roedd dau yn gysylltiedig â dŵr glân. Mae digwyddiadau dŵr glân yn gysylltiedig â gwasanaethau cyflenwi dŵr, gan gynnwys gweithfeydd trin dŵr a systemau dosbarthu dŵr (dŵr o'r prif gyflenwad).


| | **O ble wnaeth y digwyddiad llygredd ddeillio?** (Math o ased) | **Oes gan yr ased drwydded amgylcheddol?** | **Nifer y digwyddiadau o'r math hwn o ased yn 2018** | **Categori'r effaith amgylcheddol** |
|---|---|---|---|---|
| **Dŵr gwastraff** | Carthffos fudr | Nac oes, amherthnasol | 2 | Isel, categori 3 |
| | Gweithfeydd trin carthion | Oes | 1 | Isel, categori 3 |
| | Gorlif carthffosiaeth cyfunol | Oes | 1 | Isel, categori 3 |
| **Dŵr glân** | Gweithfeydd trin dŵr | Oes | 1 | Isel, categori 3 |
| | System dosbarthu dŵr | Nac oes, amherthnasol | 1 | Isel, categori 3 |

*Tabl 2: yn dangos o ble wnaeth y digwyddiadau llygredd a ddigwyddodd yn 2018 ddeillio (math o ased) ac a ydynt yn cael eu caniatáu*

Rydym yn argymell bod Hafren Dyfrdwy yn canolbwyntio ar adolygu a ellid fod wedi osgoi'r digwyddiadau llygredd a achoswyd gan asedau â chaniatâd a gweithredu ar unwaith ar sail unrhyw wersi a ddysgwyd. Dylid sicrhau bod y cwmni'n cadarnhau bod unrhyw delemetreg a data ar rybuddion sydd ar gael ar gyfer y safleoedd yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn lleihau'r perygl iddynt ddigwydd eto.

### Dŵr gwastraff

Fel mae'r graff isod yn ei ddangos, mae nifer digwyddiadau llygredd ers 2015 wedi lleihau'n gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rydym yn falch gyda'r gostyngiad cyson sy'n dangos pedwar digwyddiad dŵr gwastraff yn 2018, sef y nifer isaf hyd yma. Ein bwriad yw gweld y nifer yn parhau i ostwng yn 2019, a'r nod yw lleihau nifer y digwyddiadau llygredd dŵr gwastraff i sero.





| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| High - major (Cat 1) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| High - significant (Cat 2) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Low (Cat 3) | 9 | 8 | 6 | 4 |

*Ffigur 1: graff yn dangos nifer y digwyddiadau dŵr gwastraff a chategori eu heffaith 2015-2018*

## Dŵr glân

Fel mae'r graff isod yn ei ddangos, mae digwyddiadau dŵr glân wedi amrywio rhwng 1 a 3 ers 2015. Dim ond digwyddiadau Isel (Categori 3) a fu, ac nid oes unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol (Categori 1 a 2) wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd dau ddigwyddiad yn 2018, un o safle trin dŵr â chaniatâd ac un o system dosbarthu dŵr; roedd y ddau ag effaith Isel (Categori 3). Byddwn yn ystyried sefydlogi'r niferoedd hyn yn 2019, fel y gwelir gyda digwyddiadau gwastraff dŵr uchod, gyda'r nod o'u lleihau i sero.




| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|
| Low (Cat 3) | 1 | 2 | 3 | 2 |

*Ffigur 2: graff yn dangos nifer y digwyddiadau dŵr glân a chategori eu heffaith yn 2015-2018*

# 5. Digwyddiadau hunan-adrodd


Fel rheoleiddiwr, hoffem weld cwmnïau dŵr yn mynd ati i hunan-adrodd cynifer o ddigwyddiadau llygredd ag y gallent [4].

Golyga hyn y gallwn fod yn fwy hyderus bod y cwmni dŵr:

- yn deall eu hasedau ac yn rhwydweithio'n well;
- yn mynd ati'n barhaus i chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd maen nhw'n darogan digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio eu data telemetreg eu hunain, er mwyn gwella lefelau hunan-adrodd;
- defnyddio eu data er mwyn nodi ardaloedd lle mae yna broblemau a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau;
- mynychu digwyddiadau'n gyflym ac ymateb yn chwim iddynt er mwyn atal unrhyw effaith cyn gynted â phosibl.

Yn 2018, rydym yn falch o adrodd bod 100% (6 allan o 6) o ddigwyddiadau wedi'u hunan-adrodd gan y cwmni ei hun.

Ein gobaith yw y bydd y cwmni yn pwyso am i bob digwyddiad gael ei hunan-adrodd eto yn 2019 gan sefydlogi'r tueddiad hwn mewn perfformiad 100%.




*Ffigur 3: graff yn dangos canran y digwyddiadau dŵr glân a dŵr gwastraff y gwnaeth y cwmni hunan-adrodd arnynt yn 2015-2018*

[4] Er mwyn adrodd digwyddiad i ni, ffoniwch ein Llinell Gymorth Digwyddiadau ar 03000 65 3000


# 6. Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Fel rheoleiddiwr, rydym yn cyflwyno trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, sy'n cynnwys gollyngiadau i drin dŵr o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr gan gwmnïau dŵr. Yn ôl y trwyddedau, bydd yn ofynnol i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn monitro eu gollyngiadau eu hunain ac yn darparu data i ni ac rydym yn ei asesu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Byddem yn disgwyl cydymffurfiaeth â holl amodau'r drwydded.

Fel mae'r ddau graff isod yn ei ddangos, roedd yr holl safleoedd yn cydymffurfio â chyfyngiadau eu trwyddedau rhifol yn 2018. Mae hyn yn galonogol ac yn dangos bod Hafren Dyfrdwy yn llwyddo i reoli'r 39 o weithfeydd rhifol sydd ganddynt ar gyfer trin carthion a'r pump o weithfeydd rhifol sydd ganddynt ar gyfer trin dŵr.

### Gweithfeydd trin carthion


Erbyn hyn, mae gweithfeydd trin carthion yn yr ardal weithredol y mae Hafren Dyfrdwy yn ei rheoli wedi cydymffurfio'n gyson, gan gydymffurfio 100% â chyfyngiadau trwyddedau rhifol ers 2015, fel mae'r graff isod yn ei ddangos.




*Ffigur 4: graff yn dangos cydymffurfiaeth gweithfeydd trin carthion â'u cyfyngiadau rhifol a ganiateir 2015-18*

## Gweithfeydd trin dŵr

Mae cyfraddau cydymffurfio gweithfeydd trin dŵr yn dangos mwy o amrywiaeth, fel mae’r graff isod yn ei ddangos. Yn 2015, 2017 a 2018 roedd yr holl weithfeydd trin dŵr yn cydymffurfio â’u cyfyngiadau rhifol a ganiateir. Fodd bynnag, yn 2016 fe wnaeth dau o weithfeydd trin dŵr fethu eu cyfyngiadau rhifol a ganiateir. Hoffem weld y cyfraddau cydymffurfio 100% diweddar yn parhau yn 2019, er mwyn dangos bod y maes perfformiad hwn yn sefydlogi.




*Ffigur 5: graff yn dangos graddfeydd cydymffurfio Gweithfeydd Trin Dŵr â’u cyfyngiadau rhifol a ganiateir 2015-18*

Rydym wedi asesu cyfraddau cydymffurfio’r tri safle â chaniatâd a oedd yn achosi llygredd (fel y nodir ar dudalen 5). Nodwyd achosion o dorri amodau’r trwyddedau ym mhob safle, ac roedd yn ofynnol cymryd y camau priodol; cyflwynwyd rhybudd i ddau safle. Cynhaliwyd arolygiad gweithredol o un o weithfeydd mawr trin carthion y cwmni, ac fe aseswyd ei fod yn cydymffurfio.

## Llif

Fe wnaeth dau safle fynd y tu hwnt i’w cyfyngiad a ganiateir ar gyfer Llif Tywydd Sych (DWF), gan arwain at y safleoedd yn cael mwy o garthion nag a ganiateir. Mae Hafren Dyfrdwy yn ymchwilio i dri o’u safleoedd y maen nhw’n ystyried eu bod mewn perygl o fethu eu cyfyngiadau a ganiateir ar gyfer llif i driniaeth lawn, sy’n golygu nad ydynt o bosibl yn trin y llif sy’n ofynnol yn ôl eu trwyddedau. Mae’r cwmni wedi dangos ei fod wedi mynd ati i archwilio’r safleoedd hyn gyda’r nod o sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Maen nhw wedi sicrhau hefyd fod yna well system reoli fewnol ar waith ar gyfer ail-ardystio MCERTS ac mae’r holl safleoedd yn cydymffurfio ar hyn o bryd.

# 7. Adnoddau dŵr

### Cydymffurfio â thrwydded adnoddau dŵr

Yn sgil y cyfnod estynedig o dywydd sych yma yng Nghymru yn ystod Haf 2018, roedd ein gwaith rheoleiddio yn gorfod canolbwyntio ar asesiadau o gydymffurfiaeth adnoddau dŵr yn ystod y cyfnod hwn. Cynhaliwyd arolygiadau ac archwiliadau rhagweithiol gennym o drwyddedau adnoddau dŵr.

Cynhaliwyd chwech o arolygiadau adnoddau dŵr yn 2018 yn safleoedd trwyddedig Hafren Dyfrdwy a Severn Trent yng Nghymru. Roedd dau yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded; nid oedd pedwar yn cydymffurfio, a nodwyd saith achos o dorri amodau. Roedd yr holl achosion o dorri amodau yn perthyn i Gategori CCS3[5] sy'n golygu eu bod yn debygol o gael effaith fach/isel ar yr amgylchedd. Cyflwynwyd rhybuddion i'r ddau safle nad oedd yn cydymffurfio, a chafodd y ddau arall gyngor ac arweiniad.

Diogelwch Indecs Cyflenwi

Mae dangosydd Diogelwch Indecs Cyflenwi (SoSI) yn mesur y graddau y gall y cwmni sicrhau ei fod yn darparu a chynnal lefel ei wasanaeth pan fo cyfyngiadau i'r cyflenwad dŵr (e.e. Gwaharddiadau Defnyddio Dros Dro) os oedd y flwyddyn flaenorol yn sych. Roedd sgôr SoSI ar gyfer 2018 yn cwrdd a'r targed o 100.

### Cynllunio ar gyfer sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion pobl eraill sy'n defnyddio dŵr. Mae yna ofyniad statudol ar gwmnïau dŵr yng Nghymru i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau ar gyfer sychder a rheoli adnoddau dŵr. Cyhoeddir y rhain bob pum mlynedd.

Am y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau rheoli adnoddau dŵr Hafren Dyfrdwy ewch i'w gwefan: www.hdcymru.co.uk/about-us/plan-and-strategy/water-resource-planning/water-resource-management-plan

Ewch i'n tudalennau gwe am ragor o wybodaeth am y pynciau hyn:

- Cynllunio ar gyfer Adnoddau Dŵr: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning?lang=cy
- Sychder: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought?lang=cy

### Gollyngiadau a defnyddio dŵr

Oherwydd amserlenni adrodd gwahanol ar gyfer adnoddau dŵr, ni allwn gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym yn cydweithio ag Ofwat i gyhoeddi amrywiaeth eang o ddata am gwmnïau dŵr sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnyddio dŵr a bydd ar gael yn **https://discoverwater.co.uk/cy/**

---

[5] Categorïau CCS (Compliance Classification Scheme) yw'r ffordd rydym yn categoreiddio achosion o beidio â chydymffurfio. Maen nhw ar raddfa o 1-4, 1 yn golygu'n fwyaf tebygol o gael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd a 4 yn golygu ei fod yn cael ychydig o effaith neu dim effaith. Mae categori 3 CCS yn debygol o gael effaith fach ar yr amgylchedd.

# 8. Mathau eraill o waith rheoleiddio

## Gorfodi

Yn 2018 ni chyflwynwyd camau gorfodi[6] i Hafren Dyfrdwy, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy na Severn Trent Water am droseddau yng Nghymru.

## Cyflawni Rhaglen Genedlaethol yr Amgylchedd fel rhan o'r Rhaglen Rheoli Asedau

Mae Hafren Dyfrdwy wedi cwblhau 100% o'u hallbynnau disgwyliedig ar gyfer Blwyddyn 4 Cynllun Rheoli Asedau 6 Rhaglen Genedlaethol yr Amgylchedd. Mae'r gwelliannau sydd wedi cael eu cyflawni gan y rhaglen yn golygu y bydd asedau yn cyrraedd safonau uwch ac yn sicrhau gwelliannau mewn ansawdd dŵr.

Byddwn yn newid rheolwyr y rhaglen Hafren Dyfrdwy, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau 6 Rhaglen Genedlaethol yr Amgylchedd Severn Trent. Yn y dyfodol, byddwn yn rheoli rhaglen Hafren Dyfrdwy ar wahân. Byddwn yn cydweithio â Hafren Dyfrdwy er mwyn sicrhau bod y rhan o Raglen Rheoli Asedau 6 sy'n weddill yn cael ei chyflawni erbyn 2020.

## Defnyddio a gwaredu llaid

Nid oes unrhyw weithgareddau gwaredu llaid yn yr ardal y mae Hafren Dyfrdwy yn gweithredu ynddi.

## Cronfeydd Dŵr

Mae Hafren Dyfrdwy'n rheoli 16 o Gronfeydd Dŵr Uwch Mawr (LRR) yng Nghymru gyda chwmpas uwch sydd uwchlaw 10,000 metr$^3$ ac rydym yn eu rheoleiddio dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Diben y gyfraith hon yw atal dŵr rhag cael ei ryddhau heb reolaeth a llifogydd dilynol i gymunedau islaw. Mae'n rhaid cynnal arolygiad statudol cyfnodol ar bob LRR a dylid gweithredu'r argymhellion a wneir gan Beiriannydd Arolygu annibynnol. Mae'n rhaid i'r cronfeydd dŵr hyn gael eu goruchwylio bob amser gan beiriannydd sifil cymwys a dylid cadw cofnod o'r wybodaeth bwysicaf a'r gweithgareddau monitro.

Rydym yn derbyn gohebiaeth reolaidd gan Dîm Diogelwch Argaeau Hafren Dyfrdwy ac mae lefelau cydymffurfio yn uchel. Wrth lunio'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw fesurau ar y gweill sydd i'w cymryd er mwyn sicrhau diogelwch.

[6] Mae camau gorfodi'n cynnwys rhybudd ffurfiol, erlyn a gorfodi. Nid yw rhybuddion wedi'u cynnwys yma.

## Rheoli Perygl Llifogydd

Dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthion eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Mae'n ofynnol iddynt weithredu mewn dull sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru ac mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru.

Bob ychydig o flynyddoedd rydym yn llunio adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru am y ffordd mae perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn cael ei reoli ledled Cymru ac am y gweithgareddau sydd ar waith i godi ymwybyddiaeth a chynyddu gwydnwch y rhai sydd mewn risg. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl Awdurdodau Rheoli Risg sy'n gweithredu yng Nghymru, felly byddwn yn cynnwys Hafren Dyfrdwy. Mae gwaith ar y gweill ar adroddiad 2017-18 - cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein gwefan Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn ddiweddarach yn 2019 pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

# 9. Disgwyliadau o ran perfformiad ar gyfer 2019

Hoffem i Hafren Dyfrdwy wneud y canlynol:

- sicrhau eu bod yn cydymffurfio 100% â chyfyngiadau rhifol a ganiateir
- sicrhau eu bod yn mynd ati i hunan-adrodd am bob digwyddiad llygredd
- cynnal sgôr yr indecs SoSI er mwyn cyflawni 100
- parhau i ostwng nifer y digwyddiadau llygredd, gan anelu ddim digwyddiadau
- parhau i ddarparu cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau (AMP) erbyn y terfyn amser.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cambria House
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Dydd Llun – Dydd Gwener, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
https://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw